



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 8 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd lleol ar gyfer natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion

Ar ran Caffi Trwsio Cymru, hoffem eich gwahodd chi a'ch cymuned i'n digwyddiad Sesiwn Agored lle byddwn yn trafod gwirfoddoli mewn caffi trwsio a'r gwahaniaeth cadarnhaol y gallwch ei wneud i'r amgylchedd a'ch cymuned leol.

Mae gennym Sesiwn Agored ar **23 Medi.**

Anfonwch e-bost at jessica@repaircafewales.org os hoffech wahoddiad dyddiadur ar gyfer eich calendr, neu i gael mwy o wybodaeth ewch i'n gwefan: Caffi Trwsio Cymru - Caffis Atgyweirio Cymunedol Lleol

**Allech chi fod yn Drefnydd Gwirfoddolwr?** Beth yw Caffi Trwsio? Mae Caffis Trwsio yn digwyddiadau dros dro sy'n cael eu

cynnal ar ddyddiadau rheolaidd lle bydd gwirfoddolwyr yn trwsio eitemau sydd wedi torri yn eu cartrefi HEB GOST!! Gadewch i ni achub y blaned, atal gwastraff, a chadw ein cymuned i ffynnu!Mae Caffi Trwsio Cymru yn darparu cefnogaeth heb gost.Pryd? **Dydd Mawrth, 23 Medi 6yh – 6.30yh** ymunwch yma

---




Mae Age Cymru’n chwilio am esiamplau o arferion gorau mewn cartrefi gofal yng Nghymru – yn benodol, cartrefi gofal sy’n cefnogi preswylwyr hŷn sy’n:

- LHDTC+
- Niwroamrywiol
- Byddar neu’n ddall
- Saesneg yw eu hail iaith
- Cyn-filwyr

Os ydych chi’n gwneud gwaith arbennig er mwyn cefnogi eich preswylwyr hŷn mewn ffyrdd eraill, rydyn ni’n awyddus iawn i glywed eich stori!

Os hoffech chi rannu rhagor o wybodaeth – e-bostiwch carehomes@agecymru.org.uk neu ffoniwch 07944 996720

---

Rhentu Doeth Cymru yn ffurfio partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno cwrs rheoli llifogydd hanfodol - AM DDIM

**Cliciwch yma**

---

**Cwynion i'n swyddfa yn parhau i gynyddu**

***Cyhoeddwn heddiw ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2024-25, sy'n dangos cynnydd aruthrol o 43% yn nifer y cwynion newydd a gafwyd ers y flwyddyn cyn pandemig Covid-19.***

**Fersiwn Llawn** | **Crynodeb Gweithredol** | **Hawdd ei ddeall**

---

**Y Materion Llosg sy'n Cysylltiedig â Thanau Batri Lithiwm-ion Sesiwn ar-lein am ddim**

A fyddech chi'n gwybod am y goblygiadau i grwpiau cymunedol—megis y peryglon tân sy'n deillio o sgwteri symudedd, beiciau trydan, a fapiau?

Mae **Webinar am ddim** ar gael i chi ar **15 Medi 2025** rhwng **13:00 a 14:00**.

**Mewngofnodi** | **Cofrestru**

---

## Cofiwch bod bob math o ddogfennau defnyddiol ar gael ar y wefan i'ch helpu.

**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael** **Mwy o Fanylion**

.......................

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:

**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol

ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

.......................

**Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:**

**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch a'ch clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol. Mae'r sesiynnau tan diwedd y flwyddyn iw weld ar ein gwefan.**

**Rhestr cyrsiau a dyddiadau**

🌟 **CRYNODEB AROLWG PWYLLGORAU ARDAL** 🌟
EICH LLAIS , EICH EFFAITH . EIN DYFODOL
DIOLCH YN FAWR I BOB CYNGOR WNAETH CWBLHAU'R AROLWG
PWYLLGORAU ARDAL YN GYNHARACH YN Y FLWYDDYN

**Cliciwch yma**

## Ymgynghoriadau

### Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd

Annwyl Gadeirydd a Chlerc

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio cael barn ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd. Er nad yw'n effeithio cynghorau Cymuned a Thref yn uniongyrchol, mae'n gyfle i rhoi barn ar fater sydd o ddidordeb i'r cyhoedd yn

gyffredinol gyda'r nod o rhoi fwy o wybodaeth ar sut mae penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cymeryd lle.

Mae'r ymgynghoriad am ystyried:

• a ddylid ymestyn y ddyletswydd ar brif gyngor i ddarlledu cyfarfodydd sy'n cynnwys cyfarfodydd heblaw rhai'r cyngor llawn

• a ddylid gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub a/neu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddarlledu eu cyfarfodydd

• a ddylid cael cyfnod cadw ar gyfer recordiadau o gyfarfodydd sy'n cael eu darlledu

Mae Deddf 2021 yn darparu ffyrdd newydd i brif gynghorau (sef cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol), Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau, gyda phwyslais cryf ar egwyddorion democratiaeth, tryloywder ac atebolrwydd i ddinasyddion Cymru. Mae Deddf 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n creu mwy o dryloywder a didwylledd rhwng prif gynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chymunedau. Mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar botensial technoleg ddigidol i sicrhau mwy o dryloywder, cydweithio ac atebolrwydd rhwng prif gynghorau a dinasyddion Cymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig peidio â difreinio unigolion nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg ddigidol, neu nad ydynt yn gallu defnyddio technoleg ddigidol.

Mae'r ymgynghoriad ar gael yma:
https://www.llyw.cymru/ymestyn-y-ddyletswydd-ar-awdurdodau-lleol-i-ddarlledu-cyfarfodydd

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 28 Tachwedd 2025. Bydd Un Llais Cymru yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn ddiolchgar i dderbyn ymateb eich Cyngor neu ymateb ddrafft erbyn dydd Gwener 14 Tachwedd. Fy ebost yw cjones@onevoicewales.wales

## Ymgynghoriadau Allanol

Cliciwch yma

Cliciwch yma

---

## SWYDDI

### Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

Mwy o Fanylion

## Swyddi Llywodraeth Cymru

**Penodiadau Cyhoeddus**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi gan

Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Penodi Cadeirydd - Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol –

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 12/09/2025 am 16:00.**

**------------------------------------------------------------**

Penodi Cadeirydd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru -

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiad uchod yw 15/09/2025 am 16:00.**

------------------------------------------------------------

PENODI CADEIRYDD - AWDURDOD TOMENNI NAS DEFNYDDIR CYMRU

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 17/09/2025 am 23:55.**

**------------------------------**

**LLYFRGELL CENEDLAETHOL CYMRU**

Mae hwn yn gyfle unigryw i arwain rhaglen drawsnewidiol sy'n ysgogi'r sector diwylliant yng Nghymru i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Byddwch yn sbarduno cydweithio traws-sector, yn llunio gweithredu polisïau, ac yn grymuso archifau a sefydliadau diwylliannol i gyfrannu 'n ystyrlon at strategaethau datgarboneiddio ac addasu cenedlaethol.

Swyddi - Llyfrgell Genedlaethol Cymru

---

# Cadwch y Dyddiad

**Cynhadledd Cenedlaethol Blynyddol Un Llais Cymru**

**Dydd Mercher 1af o Hydref - Llanfair - ym -Muallt**

Ymunwch â ni ar gyfer crynodeb o gyflawniadau'r flwyddyn yn Un Llais Cymru. Mae Cynghorau a Phwyllgorau Ardal eisoes wedi cyflwyno cynigion ar gyfer trafodaeth

**Cliciwch yma am fwy o manylion**

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan OVW:

## Tim argyfwng Costau Byw

Dilynwch y linc yma i gofrestru

**Cofrestrwch nawr ar gyfer ein digwyddiadau ar-lein nesaf Heb Adael Neb Allan: Syniadau Nadolig**

**Cost Isel i Deuluoedd Dydd Mercher 15 Hydref, 2pm - 4pmI lawer o deuluoedd, mae'r tymor gwyliau'n dod â straen yn hytrach na llawenydd—mae costau'n codi, cyllidebau'n dynn, ac unigrwydd cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd. Gall cynghorau helpu teuluoedd i fwynhau'r Nadolig, hyd yn oed gyda chyllideb fach.Ymunwch â'n gweminar i archwilio ffyrdd syml a chost isel y gall eich cyngor eu defnyddio i wneud y Nadolig hwn yn un mwy disglair i bawb.Ar gyfer y ddau weminar, fe ddewch i ffwrdd gyda rhestr wirio hanfodol, yn llawn syniadau cyflym a chost isel y gallwch eu rhoi ar waith ar unwaith.**

------------------------------

## GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

Cliciwch yma am fwy o manylion

------------------------------

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

**Mae tîm leoedd Lleol ar gyfer Natur wedi croesawu aelod newydd – croeso cynnes i Sam Langdon sydd wedi dechrau fel ein swyddog yng Ngogledd Cymru. Darllenwch fwy am cefndir Sam isod**

Cefndir Sam

---

## Cylchlythyrau allanol

**Cylchlythyr CCW**

**Tanysgrifiwch i nifer o cylchlythyrau gwych gan**

Dogfen llawn

Llywodraeth Cymru

Tanysgrifiwch yma

Cylchlythyr Ystadegau Cymru

Lawrlwythwch yma ( Saesneg yn unig)

---

## Newyddion Allanol

**Cynhadledd Cenedlaethol**

**16 Hydref 2025 (9:00am - 4:30pm)**
**Gwesty'r Hilton, canol dinas Caerdydd**

**Pris boregodwyr ar gyfer cefnogwyr yng Nghymru yn gorffen dydd Llun 1 Medi.**

Archebwch eich lle heddiw i dderbyn y pris gorau:

- Cefnogwyr yng Nghymru tan 1 Medi: £55
- Cefnogwyr yng Nghymru o 2 Medi ymlaen: £75
- Cynadleddwyr o'r tu allan i Gymru: £100

**Mae adolygiad llenyddiaeth *Chwarae a lles* a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru yn pwysleisio bod cyfleoedd chwarae anffurfiol yn rhoi cyfle i blant gefnogi eu lles uniongyrchol tra'n adeiladu'n naturiol y sgiliau bywyd sy'n cyfrannu at ddeilliannau datblygiad tymor hir. Ynghyd â'r dystiolaeth rymus hon, beth allwn ni ei ddysgu oddi wrth yr hyn fydd plant yn ei ddweud wrthym am sut fyddan nhw'n chwarae?**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sectorau chwarae a gwaith chwarae wedi sicrhau cynnydd sylweddol wrth greu amgylchedd chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant, wedi ei gefnogi gan bolisi ac ymchwil arloesol. Mae angen inni feithrin a chynnal y cynnydd a'r momentwm hwn.

Ymunwch â ni yng nghynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru i drafod sut allwn ni gynnal y momentwm hwn ac archwilio ffyrdd i ehangu ar ein gwaith i gyd, a chydweithio i ddarparu, hyrwyddo a gwarchod hawl plant i chwarae.

Lawrlwythwch rhaglen y gynhadledd
Archebwch eich lle

------------------------------

## Mwynhewch lwybr syfrdanol arfordir Cymru gydag ymgyrch

**Trafnidiaeth Cymru 'O'r Cledrau i'r Llwybrau'**

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn cynnal ei ymgyrch 'O'r Cledrau i'r Llwybrau' ers 2022 – cafodd ei sefydlu yn wreiddiol i ddathlu dengmlwyddiant Llwybr Arfordir Cymru. Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at y ffordd y gellir cyrraedd gwahanol rannau o lwybr yr arfordir yn hawdd o wahanol orsafoedd trenau ar Rwydwaith Cymru a'r Gororau, o'r Fflint yn y Gogledd i Ddinbych-y-pysgod yn y Gorllewin.

Mae Llwybr Arfordir Cymru bellach yn enwog ledled y byd, ac mae'n cynnig cyfle unigryw i gerddwyr gerdded perimedr cyfan Cymru, gan fwynhau tirwedd unigryw a syfrdanol Cymru.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth am y 1,000 milltir o lwybrau cerdded ledled Cymru, a'r gorsafoedd rheilffordd hygyrch gerllaw, mae gwefan 'O'r Cledrau i'r Llwybrau' yn eich galluogi i gynllunio eich taith ar y trên a'ch rhaglen gerdded i gyd-fynd â'ch anghenion unigol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates:

> Nid yw pobl bob amser yn ymwybodol bod llawer o'n gorsafoedd rheilffordd yn gweithredu fel pyrth cyfleus i lwybrau cenedlaethol enwog a llwybrau cerdded yng Nghymru.

Mae hon yn ymgyrch wych sy'n hyrwyddo ein rhwydwaith rheilffyrdd fel ffordd o gael mynediad i'n llwybr arfordirol anhygoel, felly beth am adael eich car gartref, nôl eich bŵts cerdded a'ch bag cefn, dal trên a mynd allan i archwilio.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddolen ganlynol: O'r Cledrau i'r Llwybrau | Trafnidiaeth Cymru

---


**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c College St, Ammanford SA18 3AF
United Kingdom



Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite